**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Cynllunio

**Dyddiad y Cyfarfod:** 16 Mawrth 2016

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** Y Cyng. David Smith, Parth Cyhoeddus
Angela Loftus, Rheolwr Polisi Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd

**Awdur yr Adroddiad:** Lara Griffiths, Swyddog Cynllunio

**Teitl:** Canllawiau Cynllunio Atodol Coed a Thirlunio – Drafft Ymgynghorol

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â dogfen Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) drafft ar goed a thirlunio, a fydd os caiff ei mabwysiadu, yn cael ei defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Ar ôl mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Ddinbych, mae angen CCA wedi'u diweddaru ar goed a thirlunio er mwyn cynnig arweiniad pellach i ddatblygwyr, Swyddogion ac Aelodau. Mae CCA drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ynghlwm i'r adroddiad hwn.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau'n cytuno ar y CCA ar goed a thirlunio fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Ar ôl mabwysiadu'r CDLl ar 4 Mehefin, 2013, cytunodd y Cyngor i ddwyn ymlaen y gyfres bresennol o CCA, gan gynnwys CCA 6 – Coed a datblygu. Yn dilyn hyn mae'r CCA wedi cael ei ddiwygio i ddiweddaru'r canllawiau o ganlyniad i gyflwyno Safon Brydeinig newydd, wedi ei wneud yn gliriach a darparu deunydd enghreifftiol gwell. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd y CCA yn ystyriaeth cynllunio perthnasol wrth asesu ceisiadau cynllunio.

4.2. Mae'r CCA yn ategu'r polisïau a rheoliadau cenedlaethol mewn perthynas â choed a thirlunio a Pholisi RD1 y CDLl drwy ddarparu manylion ac arweiniad pellach ar y lefel o wybodaeth sy'n briodol i wahanol fathau o geisiadau gan gynnwys arolygon coed, cynlluniau plannu a mesurau diogelu coed.

4.3. Byddai'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus am o leiaf 8 wythnos a disgwylir iddo ddechrau yn Mai 2016. Ymgynghorir â phob Cyngor Cymuned, Dinas a Thref

ynghyd â phobl sydd wedi'u cofrestru ar y gronfa ddata CDLl. Bydd copïau caled o'r dogfennau ar gael ym mhob llyfrgell a siopau un stop yn ogystal ag ar wefan Sir Ddinbych. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cynllunio gyda CCA terfynol ar gyfer mabwysiadu.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Nid yw'r CCA yn cyfrannu'n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol ond bydd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod datblygiadau wedi'u cynllunio'n dda ac yn darparu amwynder gwell i drigolion ac ymwelwyr â Sir Ddinbych, gan gyfrannu at fentrau lles y Cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Ni ragwelir y bydd cytuno ar y CCA ar gyfer ymgynghori yn creu unrhyw gost ychwanegol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Ni chredir bod angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y penderfyniad hwn. Mae'r egwyddor o'r angen i ddarparu a diogelu coed mewn perthynas â datblygiad wedi cael ei sefydlu drwy bolisïau cenedlaethol a mabwysiadu'r CDLl. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb llawn ar y CDLl ym Mai 2011.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol, ond cynhaliwyd ymgynghoriad mewnol gyda Grŵp Llywio Aelodau'r CDLl a swyddogion yn yr Adain Rheoli Datblygu.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Ni ragwelir y bydd cytuno ar y CCA ar gyfer ymgynghori yn creu unrhyw gost ychwanegol. Os bydd unrhyw gostau yn codi bydd angen eu cynnwys o fewn y cyllidebau refeniw presennol ar gyfer y gwasanaeth hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Yn absenoldeb canllawiau cyfoes, mae perygl y gall datblygwyr ddod ymlaen â chynlluniau amhriodol a fydd yn niweidiol i'r strydlun ac amwynder defnyddwyr datblygiadau yn y dyfodol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).